LC1222

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006

Diben y Rheoliadau yma yw diweddaru’r ddeddfwriaeth ar y pwnc er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau yn y ddeddfwriaeth Gymunedol berthnasol. Maen nhw’n gwneud hynny drwy ddirymu ac ailddeddfu Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005 fel y’u diwygiwyd.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 5(4) yn ymdrin â samplau ocratocsin, ac mae croesgyfeiriad yn y bedwaredd linell at is-baragraff (d) o baragraff (1). Mewn gwirionedd, at blwm, cadmiwm, mercwri a 3-MCPD y mae paragraff (1)(d) yn cyfeirio, ac (1)(c) sy’n ymdrin ag ocratocsin. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae geiriad rheoliad 6(3) yn y Saesneg yn arbennig o astrus, ac mae’n ymddangos ei fod wedi arwain at gynnwys y geiriau "yn y Ddeddf" yn amhriodol yn y llinell olaf ond un yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw’r rhain a byddai’n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau yma yn rhoi ar waith dri o Gyfarwyddebau'r Comisiwn, a gafodd eu gwneud ar 19 Ionawr, 26 Ionawr a 4 Chwefror 2005. Roedd y rhain yn gofyn bod y ddeddfwriaeth ddiwygio yn dod i rym erbyn 10 Chwefror, 18 Chwefror a 8 Chwefror 2006 fan bellaf, yn y drefn honno. Ar 1 Mawrth 2006 y daw'r Rheoliadau yma i rym.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Chwefror 2006